**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Trwy e-bost: taliadau@senedd.cymru

4 Chwefror 2026

**Ymgynghoriad ar y Penderfyniad Drafft ar gyfer y Seithfed Senedd**

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Mae'r Penderfyniad Drafft ar gyfer y Seithfed Senedd (y Penderfyniad) yn gosod y trefniadau ar gyfer cyflog, staffio a chymorth busnes Aelodau Senedd Cymru, ac felly yn ddogfen hynod bwysig all gael dylanwad pellgyrhaeddol ar ddiwylliant ac arferion yr Aelodau a'u staff. Bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar berthnasedd y ddogfen, a dogfennau perthynol, i'r Gymraeg ac i Gynllun Ieithoedd Swyddogol (y Cynllun) y Senedd.

Er nad oes disgwyl statudol ichi fel Bwrdd Taliadau gynnal asesiad o effaith y Penderfyniad ar y Gymraeg roedd yn syndod i ni weld nad oedd asesiad effaith ar y Gymraeg wedi ei gwblhau fel rhan o'r gwaith o adolygu'r Penderfyniad. Nid oes ychwaith gyfeiriad at y Gymraeg na Chynllun y Senedd yn y Penderfyniad na'r Fframwaith Dosbarthu Swyddi (y Fframwaith) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r dogfennau yma gyda'i gilydd yn darparu'r arweiniad a'r cyllid fydd yn galluogi Aelodau'r Senedd i benderfynu pa deulu swyddi a band cyflog y dylid dyrannu swydd iddynt.

Er bod y Fframwaith yn cynnig manylder ynghylch y math o nodweddion sy'n berthnasol i swyddi, does dim cyfeiriad o gwbl at y gallu i siarad Cymraeg. Er mwyn hwyluso'r Aelodau i fedru gweithredu yn unol â Chynllun y Senedd ac i wasanaethu eu hetholwyr yn ieithoedd swyddogol Cymru byddem yn disgwyl bod sgiliau yn y Gymraeg yn nodwedd hollbwysig ar gyfer nifer o swyddi staff

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Balaclafa Way
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

comisiynyddygymraeg.cymru
welshlanguagecommissioner.wales

fydd yn gweithio gydag Aelodau'r Senedd. Anogwn chi i adolygu'r Fframwaith, neu fynegi trwy'r Penderfyniad, bwysigrwydd bod â staff sy'n gallu gweithio yn Gymraeg i gefnogi gwaith yr Aelodau a chanllawiau ar sut i fynd ati i wneud hynny.

Yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Biliau Diwygio adeg craffu ar Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 dywedais fod:

*'cynyddu maint y Senedd yn gyfle euraidd i gyflwyno arferion gweithio ieithyddol newydd ymysg Aelodau'r Senedd ac i ystyried o'r newydd a yw'r isadeiledd presennol sy'n cefnogi Aelodau'r Senedd yn ddigonol i sicrhau bod yr Aelodau yn gallu craffu yn llawn ar ddeddfwriaeth ddwyieithog Cymru, ac yn ddigonol i'w cymell a'u galluogi i weithredu eu hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn llawn wrth eu gwaith fel Aelodau. Dylid ystyried ar y pwynt hwn sut i fynd i'r afael â phob rhwystr sy'n golygu nad yw Aelodau yn defnyddio'r Gymraeg a bod buddsoddiad a chynllunio digonol mewn lle i gefnogi Aelodau'r Senedd i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyd-destun newydd hwn. Drwy ddechrau cynllunio yn awr dyma gyfle gwirioneddol gyffrous i'n Senedd arloesi i ddod yn ddeddfwrfa wirioneddol ddwyieithog. Wrth gynllunio ymlaen, ac o ystyried mai hawl Aelod unigol yw'r dewis iaith, y man cychwyn fyddai cynnal adolygiad gyda'r Aelodau hynny er mwyn deall pa ddarpariaeth benodol fyddai modd i'r Comisiwn ei ddatblygu ymhellach er mwyn hybu a hwyluso eu defnydd o'r Gymraeg.'*

Mae'r sylwadau uchod yn parhau yn berthnasol, yn arbennig o ystyried bod Adroddiad Blynyddol 2024-25 ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd yn dangos gostyngiad yn y ganran o drafodion Cyfarfod Llawn y Senedd a gynhaliwyd yn Gymraeg yn 2024-25 mewn cymhariaeth â 2022-23 (29% o gymharu â 30%), a bod trafodion y Pwyllgorau a gynhaliwyd yn Gymraeg 3% yn is nag yr oeddynt yn 2021-22 (9% o gymharu â 12%). Er mwyn hwyluso defnydd Aelodau o'r Gymraeg ar lawr y Senedd ac mewn Pwyllgorau, ac er mwyn eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'w hetholwyr credwn ei bod yn hanfodol bod gan Aelodau staff sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg. I alluogi hyn mae angen gosod arweiniad ynghylch asesu anghenion ieithyddol swyddi a gosod prosesau recriwtio staff dwyieithog yn eu lle. Fel Comisiynydd, mae gennym gyngor y gallwn ei rannu ynghylch arferion recriwtio a chynllunio'r gweithlu dwyieithog all gynorthwyo gyda hyn.

Wrth gwrs, nid yw'r Penderfyniad yn mynd i effeithio yn uniongyrchol ar y defnydd o'r Gymraeg ar lawr y Senedd ac yn ei phwyllgorau. Er hynny, mae'n bwysig bod gweithdrefnau a dogfennau polisi fel y Penderfyniad, a dogfennau perthynol, yn manteisio ar bob cyfle i gefnogi gwireddu amcanion Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, a bwriad Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mai ieithoedd swyddogol y Senedd yw'r Gymraeg a'r Saesneg. Er mwyn gwneud hynny dylai dogfennau polisi megis y Penderfyniad ystyried sut mae prif ffrydio'r

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Gymraeg i waith Aelodau'r Senedd, ac annog diwylliant sy'n cefnogi cynyddu'r defnydd ohoni.

Mae creu, cynnal a chefnogi gweithleoedd Cymraeg yn rhan gwbl allweddol o'r strategaeth ar gyfer sicrhau hyfywedd y Gymraeg, ac yn flaenoriaeth i fy swyddfa dros gyfnod y Senedd nesaf. Y tu hwnt i'r byd addysg dyma'r maes strategol sydd â'r potensial mwyaf arwyddocaol i ddylanwadu yn uniongyrchol ar gyfleoedd pobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, gan gyfrannu yn uniongyrchol at gyflawni dau brif amcan strategaeth Cymraeg 2050. Dylid cefnogi a hwyluso gallu Aelodau etholedig Senedd Cymru i arwain y ffordd a gosod esiampl yn y cyd-destun hwnnw yn eu gweithleoedd hwy. Mae cyfle i fynegi hynny yn y Penderfyniad a'r Fframwaith, ac i annog Aelodau i ystyried sut y gallai nhw a'u staff gyfrannu at fywyd gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae **pennod 6** y Penderfyniad drafft yn ymwneud â chaniatáu i Aelodau hawlio am gostau sy'n ymwneud â gweithio yn eu hetholaethau, a'u cynrychioli. Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r Cynllun yn gosod disgwyliad i unrhyw ddeunyddiau a ariennir gan y Comisiwn neu'r Bwrdd Taliadau gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, ac felly yn berthnasol iawn i'r bennod yma. Fel rhan o'r bennod rydych yn cyfeirio mewn troednodyn at bwysigrwydd cydymffurfio gyda Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd (y Rheolau), gan dynnu sylw penodol at reolau 7 ac 8 sy'n ymwneud â thrin etholwyr yn gyfartal wrth ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn, a chyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn. Rydyn ni'n meddwl y dylai rheol 9 y Rheolau, sef cydymffurfiaeth gyda'r Cynllun, gael ei ychwanegu at y troedyn yma hefyd er mwyn atgoffa Aelodau o'u dyletswyddau ieithyddol.

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi yn eich ymgynghoriad, ac rwy'n hapus i gwrdd â chi i drafod ymhellach. Diolch eto am y cyfle i gyfrannu ato.

Yn gywir,



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc Senedd Cymru